Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 26 Tachwedd 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Lewney (Maer), Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

127. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

128. DATGAN BUDDIANNAU
Gwnaeth y Cynghorydd Gavin Harris ddatgan budd personol yn Eitem 13 – Dyfodol Rhuthun 2.

129. ADRODDIAD Y MAER
Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.
05.11 Cyfarfod arbennig y Cyngor ynghylch yr Hen Lys
11.11 Gwasanaeth Sul y Cofio ac agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol gyda'r Cadetiaid Awyr
17.11 Agor Ffair Grefftau'r Inner Wheel yng Nghanolfan Awelon

107. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Hydref: Cyfarfod yn Eglwys Sant Pedr ynghylch Cofeb '18, gosod y goleuadau ar y gofeb gyda'r Cynghorydd Snape, gosod arddangosfa Cofeb '18, cyfarfod Partneriaeth Twristiaeth Sir Ddinbych, cyfweliadau ynghylch Cofeb '18, cyfarfod Tîm Tref Taclus, noson Cofio yn y Tabernacl, siaradwr gwadd yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas Ddinesig ynghylch Dyfodol Rhuthun, ffilmiau codi arian Cofeb '18 Tachwedd: Cyfarfod arbennig y Cyngor, cyfarfod Is-bwyllgor Staffio, cyfarfod gyda Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych ynghylch Dyfodol Rhuthun, Gwasanaeth Sul y Cofio, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, cyfarfod Tîm Tref Taclus a gwahanol gyfarfodydd ynghylch yr Hen Lys.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng, ymweliad Llywodraethwyr i Ysgol Stryd y Rhos, cyfarfod arbennig y Cyngor, gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol a chyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng, cyfarfod arbennig y Cyngor, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, lansio arddangosfa Cofeb '18 yn Eglwys Sant Pedr a'r Ganolfan Grefft, gwasanaeth Sul y Cofio a chyfarfod Gwarchod Cymdogaeth Gogledd Cymru.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon, dau gyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Sioe Rhuthun, cyfarfod arbennig y Cyngor a gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Ken Hawkins	Gwylio'r ffilm 'Journey's End' yn y Manorhaus a'r ffilm "Oh! What a Lovely War' yn Eglwys Sant Pedr fel rhan o ddigwyddiadau Cofeb '18, cyfarfod arbennig y Cyngor a gwasanaeth Sul y Cofio.
Cyng. John Hughes	Cyfarfod arbennig y Cyngor a gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol.
Cyng. Menna Jones	Ymgynghoriad yn Neuadd y Dref Dinbych ynghylch Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, cyfarfod arbennig y Cyngor a gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol.

Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd a chyfarfod arbennig y Cyngor.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod cyhoeddus yng Nghapel Bethania ynghylch problemau traffig Llanfwrog, cyfarfod Ymlaen Rhuthun i drafod trefniadau'r tân gwyllt a dathliadau'r Nadolig, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys yn y Manorhaus, arddangosfa tân gwyllt yn y Ganolfan, Llanfwrog, cyfarfod arbennig y Cyngor, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a Gweithdy Cyllido a drefnwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.
Cyng. Dave Snape	Gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol a Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod arbennig y Cyngor.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod arbennig y Cyngor, cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun a gwasanaeth Sul y Cofio.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod arbennig y Cyngor a gwasanaeth Sul y Cofio ac yna agoriad swyddogol yr Ardd Gymunedol.

131. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2018 yn gywir.*

132. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

133. COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2018 yn gywir.*

134. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.*

135. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018.*

136. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF

Roedd tri unigolyn wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag, Mohammed Sharia Chowdhury, Sebastian Hubbard a Jabez Andrew Oakes. Cyflwynwyd cais i gynnal pleidlais ar bapur, ac eiliwyd hynny. Dosbarthwyd y papurau pleidleisio gan y Clerc a chafodd y pleidleisiau eu cyfri gan y Clerc a'u dilysu gan y cyfieithydd. Cyhoeddodd y Maer mai Jabez Andrew Oakes oedd yr ymgeisydd llwyddiannus.

PENDERFYNWYD*: bod Jabez Andrew Oakes wedi ei gyfethol yn briodol fel aelod o Gyngor Tref Rhuthun ac estynnwyd gwahoddiad iddo lofnodi'r datganiad derbyn y swydd, gyda'r Clerc yn dyst.*

137. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – RASUS MULOD CLWB ROTARI RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau'n ystyried cais am gymorth ariannol o £750.00 ar gyfer Diwrnod Hwyl Rasus Mulod Clwb Rotari Rhuthun i'w gynnal ar 15 Mehefin 2019. Croesawodd yr aelodau'r ffaith y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal eleni, ond roeddynt yn teimlo bod arnynt angen rhagor o wybodaeth am y safonau iechyd a diogelwch a'r asesiadau risg ar gyfer y digwyddiad, a'r gwariant arfaethedig, cyn gwneud penderfyniad.

***PENDERFYNWYD**: gofyn am ragor o wybodaeth ac ystyried y cais yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.*

138. ADFER CLYCHAU EGLWYS SANT PEDR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan Mrs J. Trigger, Cadeirydd a Chydlynydd Prosiect Adfer y Clychau, ynghylch cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at y prosiect a symud mecanwaith y cloc i'r festri. Croesawodd yr aelodau'r cynnig i symud mecanwaith rheoli'r cloc i'r festri, a fyddai'n golygu na fyddai'n ofynnol mynd i fyny'r grisiau i newid gosodiadau'r cloc.

***PENDERFYNWYD**: cytuno i adleoli mecanwaith rheoli'r cloc a chyfrannu £3,299.00 + TAW tuag at y prosiect yn unol â'r penderfyniad gwreiddiol.*

139. DYFODOL RHUTHUN 2

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a mabwysiadu'r diweddariad i'r adroddiad Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol, yn dilyn ymgynghoriadau Wythnos Dyfodol Rhuthun. Gadawodd y Cynghorydd Harris yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad. Pwysleisiodd yr aelodau mai dogfen weledigaeth yw hon, yn hytrach na chynigion cadarn. Yn dilyn camddehongli peth o gynnwys yr adroddiad ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol cynigiodd yr aelodau y dylai'r Cyngor Tref lunio Strategaeth Gyfathrebu a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol.

***PENDERFYNWYD**: mabwysiadu'r diweddariad i'r adroddiad Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol a chynnwys Strategaeth Gyfathrebu a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun fel eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

140. NEUADD Y DREF

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sefydlu gweithgor i edrych ar ddefnydd cyfleusterau Neuadd y Dref.

***PENDERFYNWYD**: ystyried aelodaeth y gweithgor yn y cyfarfod nesaf.*

141. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2018.

***PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2018.*

142. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100063	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cymorth ariannol i swyddfa CAB Rhuthun		£2,000.00
100064	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad tuag at waith y Lleng Brydeinig Frenhinol		£50.00
100065	Cyngor Sir Ddinbych	Tynnu'r basgedi crog o ganol tref Rhuthun	*	£405.00
100066	Fineline	250 copi o Galendr Elusennol y Maer	*	£663.19
100067	I T Williams Co. Ltd.	Cludo'r planwyr basgedi crog o Ruthun i Gorwen		
100068	Fineline	Pecyn o bapur gwyn sidan 130g	*	£29.29
100069	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Tachwedd 2018		£176.13
100070	Cyng. K. Allsopp-Robson	Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng		£42.30
100071	Boyns Information Systems Ltd	Canfod a datrys y broblem gyda'r cyfrifiadur a rhaglen amddiffyn gwrth-firws Panda	*	£90.00
100072	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100073	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd mis Tachwedd	*	£270.00
100074	Sandra Williams	Lluniaeth ysgafn Sul y Cofio		£19.02
100075	Hodkinson	Arolwg Adeilad Masnachol ynghyd â phrisio adfer	*	£1,800.00

	Mallinson Ltd	yr adeilad		
100076	Coombs Jones	Adroddiad diweddariad Rhuthun 2 yng ngyswllt Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol		£1,200.00
100077	Fineline	500 copi o galendr elusennol y Maer	*	£1,041.42
100078	Cyng. Ian Lewney	Lwfans y Maer – ail randaliad		£600.00
100079	Connection Magazines Ltd	Dosbarthu taflen Cofeb '18 yn Rhuthun gyda chylchgrawn Clwyd Connection	*	£136.80
100080	Swyddfa Archwilio Cymru	Ffi archwilio allanol am Archwilio Cyfrifon 2017/18		£272.25
100081	Capel Pendref	Costau llifoleuadau Capel Pendref, 16.03.17 – 16.11.18		£88.14

143. CORFF LLYWODRAETHU YSGOL PEN BARRAS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun ar Gorff Llywodraethu Ysgol Pen Barras gan fod cyfnod swydd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis yn dod i ben. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Menna Jones a chytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD: *diolch i'r Cynghorydd Robert Owen-Ellis am ei gyfraniad yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar Gorff Llywodraethu Ysgol Pen Barras am ddau gyfnod yn y swydd a hysbysu'r ysgol mai'r Cynghorydd Menna Jones fyddai ei olynydd.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau a ganlyn heb y wasg a'r cyhoedd yn bresennol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt.

144. YR HEN LYS

Derbyniodd yr aelodau'r cynllun busnes diwygiedig ac adroddiad yr arolwg strwythurol gan Hodkinson Mallinson Ltd, Syrfeiwyr Adeiladu Siartredig. Esboniodd y Dirprwy Faer fod y cais am Gymeradwyaeth i Fenthyca yn aros am gymeradwyaeth y Gweinidog ac y gallai gymryd pythefnos arall. Cynigiodd y dylid gofyn am estyniad i ddyddiad llofnodi'r Hysbysiad Cynnig nes bo hwn wedi'i dderbyn, gyda'r nod o gwblhau'r rhan gyntaf erbyn 14 Rhagfyr. Holwyd cwmni yswiriant y Cyngor ynghylch cost yswirio'r adeilad, a'r cyngor oedd na fyddai'n costio mwy na £500 y flwyddyn.

PENDERFYNWYD*: gofyn am estyniad i'r cyfnod amser i lofnodi'r Hysbysiad Cynnig wrth aros am y Gymeradwyaeth i Fenthyca gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Cyngor Tref i fwrw ymlaen gyda phrynu'r adeilad fel yr amlinellwyd yn y cynllun busnes.*

145. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Dosbarthwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018 i'r aelodau. Amlinellwyd cyfrifoldebau'r rôl arfaethedig. Roedd yr aelodau'n awyddus i gwmni lleol fod yn gyfrifol am y gwaith cyflogres ac awgrymwyd nifer o gwmnïau cyfrifyddion lleol y gellid eu holi ynghylch darparu hyn.

PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion a threfnu cyfarfod arall yr Is-bwyllgor Staffio nos Lun, 3 Rhagfyr.*

146. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 17 Rhagfyr 2018 am 7.00pm.*